## Cyfarfod Gweinidog yr Economi a'r Seilwaith am y Trydydd Sector

Nodyn o'r cyfarfod a gynhaliwyd am 2.00om ddydd Iau 16 Chwefror 2017 yn yr Ystafell Gynadledda, Llawr 2, Tŷ Hywel, Caerdydd

### Gweinidogion yn Bresennol

| **Enw** | **Swydd/Sefydliad** |
|---|---|
| Ken Skates AC | Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith |

### Rhanddeiliaid yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Matthew Brown | CGGC |
| Tim Cairns | CTA UK |
| Gareth Coles | Celfyddydau Gwirfoddol Cymru |
| Derek Walker | Canolfan Gydweithredol Cymru |
| Gethin Rhys | Cyngor Rhyng-ffydd Cymru |
| Matt Appleby | BiTC Cymru |
| Peter Williams | DTA Cymru |
| Sara Mackay | Celfyddydau Anabledd Cymru |
| Victoria Ward | Cymdeithas Chwaraeon Cymru |
| James Byrne | Ymddiriedolaeth Natur Cymru |

### Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Sioned Hughes | Urdd Gobaith Cymru |
| Peter Jones | Cŵn Tywys Cymru |

### Swyddogion Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Stephen Layne | Polisi a Strategaeth Economaidd |
| Derek Goode | Polisi a Strategaeth Economaidd (cofnodydd) |
| Rhodri Griffiths | Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth |
| Alan Lomas | Polisi a Strategaeth Economaidd |

## 1. Cyflwyniadau a Sylwadau Agoriadol

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod gweinidogol cyntaf y Trydydd Sector gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith o dan y weinyddiaeth newydd.

1.2 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet yr agenda gan ofyn i'r aelodau a'r swyddogion o gwmpas y bwrdd gyflwyno'u hunain, eu sefydliadau a'u rolau.

## 2. Blaenoriaethau Economaidd - Strategaethau Trawsffiniol

2.1 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y papur cyntaf gan Lywodraeth Cymru yn egluro cyd-destun y pedair strategaeth drawsffiniol a sut yr eir ati i'w datblygu. Y strategaethau hyn fydd y sylfaen ar gyfer sicrhau ffyniant i bawb.

- Llewyrchus a Diogel;
- Iach ac Egnïol
- Uchelgais a Dysgu; ac
- Unedig a Chysylltiedig.

2.2 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r pedair strategaeth drawsffiniol yn mynd i'r afael â'r prif flaenoriaethau mewn ffordd unedig a chyda ffocws. Gofynnodd i'r Grŵp am eu barn am y papur a'r ffordd o weithio.

2.3 Gofynnodd Derek Walker a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynhyrchu Strategaeth Ddiwydiannol.

2.4 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet bod hyn yn ffordd newydd o weithio ac y byddai datblygu cynaliadwy'n llinyn fydd yn gwau trwy'r pedair strategaeth. Bydd Llewyrchus a Diogel yn ehangach ei chwmpas na strategaeth ddiwydiannol neu economaidd gyffredin.

2.5 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ei fod yn gobeithio gweithio mewn ffordd adeiladol gyda Greg Clarke, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaethau Diwydiannol i sicrhau bod Strategaeth Ddiwydiannol y DU yn ategu'r gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghymru.

2.6 Dywedodd Derek Walker y byddai'n croesawu'r cyfle i'r trydydd sector gyfrannu at y strategaeth Llewyrchus a Diogel. Yn ei farn ef, dylai Llywodraeth Cymru, o ran ei thrywydd strategol, fynd ati i ddatblygu'r economi mewn ffordd gytbwys wrth a geisio unioni anghydraddoldebau rhanbarthol.

2.7 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet mai ei uchelgais ef oedd gweld strategaeth Llewyrchus a Diogel fyddai'n helpu'r economi i dyfu gan gau'r bwlch rhwng y cyfoethocaf a'r tlotaf yn ein cymuned. Cyfeiriodd at y dadansoddiad economaidd sy'n sail i hyn:

- bod dros 75% o'r bwlch rhwng GVA Cymru a pherfformiad gweddill y DU i'w briodoli i lefelau cynhyrchiant is;
- bod 15% i'w briodoli i lefelau cyflogaeth cymharol; a
- bod 8% i'w briodoli i gymhareb oedran gweithio/poblogaeth is yng Nghymru nag yn y DU h.y. nifer mwy o rai dibynnol (plant a phobl hŷn).

2.8 Ychwanegodd Stephen Layne fod i'r bwlch yn y GVA, fel y'i deellir, oblygiadau i'r strategaethau trawsffiniol eraill yn ogystal ag i strategaeth Llewyrchus a Diogel, o ran eu cyfraniad at ddatblygu'r economi. Er enghraifft, effaith Uchelgais a Dysgu ar ddatblygu sgiliau; effaith Unedig a Chysylltiedig ar wella seilwaith cysylltiedig; ac effaith Iach ac Egnïol ar fynd i'r afael â'r ffordd y mae afiechyd yn effeithio ar gyflogaeth. O'r herwydd, bydd yr economi'n thema fydd yn dirwyn trwy bob un o'r strategaethau hyn.

2.9 Pwysleisiodd Matthew Brown fod y Trydydd Sector yn awyddus i gyfrannu at ddatblygu'r strategaethau a chyfeiriodd hefyd at gyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru ar Gymunedau Cydnerth fel datblygiad ddylai gael ei gynnwys yng ngwaith y strategaethau.

2.10 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y ceid cyfleoedd pellach i gydweithio a gofynnodd i swyddogion ddisgrifio'r cynlluniau diweddaraf i ymgysylltu. Esboniodd Stephen Layne bod strategaethau'n cael eu datblygu mewn ffordd wahanol i'r elfennau ymgysylltu - gan gydnabod bod angen i'r ymgysylltu fod yn ystyrlon ac yn rhan o broses sy'n mynd y tu hwnt i gyhoeddi'r strategaethau.

2.11 Holodd Peter Williams am dwf cynaliadwy, ffurfiau newydd ar ddiwydiant, gweithgarwch economaidd newydd a chysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Dywedodd y dylai'r strategaethau geisio osgoi sefyllfa lle bo anghenion yr economi yn cystadlu ag anghenion yr amgylchedd.

2.12 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cytuno'n llwyr â'r pwyntiau hyn ac ychwanegodd fod y cysyniad o dwf gwyrdd yn cynnig cyfleoedd economaidd aruthrol a bod yr agenda cynaliadwyedd yn hanfodol i ddiogelu'r economi ar gyfer y dyfodol a gwarchod buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.

2.13 Pwysleisiodd James Byrne mor bwysig yw egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ddatblygu'r economi. Ychwanegodd fod angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r egwyddorion hynny wrth ddatblygu Ffordd Liniaru'r M4. Awgrymodd fod metro'r De yn enghraifft well o brosiect Trafnidiaeth Integredig sy'n gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

2.14 Dywedodd Matthew Brown y dylai'r strategaeth Llewyrchus a Diogel gydnabod y rôl bwysig y mae mentrau cymdeithasol yn ei chwarae yn yr economi.

2.15 Cytunodd Derek Walker â hynny a dywedodd y gallai mentrau cymdeithasol helpu'r strategaeth i ganolbwyntio ar gyflogaeth ac ar ddatblygu'r economi leol.

2.16 Cyfeiriodd Victoria Ward at y gwaith positif sy'n cael ei wneud ar y cyd â chyrff chwaraeon yng Nghymru.

2.17 Gofynnodd James Byrne beth oedd yn digwydd i agenda'r gyllideb garbon.

2.18 Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr Ysgrifennydd dros yr Amgylchedd, Leslie Griffiths, yn sicrhau bod pob rhan o'r Llywodraeth yn cydymffurfio â'r

gofyn yn hyn o beth. Mae hyn yn effeithio ar benderfyniadau polisi a'r ffordd y rhoddir polisi ar waith, yn arbennig o safbwynt trafnidiaeth gyhoeddus.

2.19 Crynhodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith y drafodaeth gan ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau.

**3. Strategaeth Economaidd Cynaliadwy**

3.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith i Matthew Brown gyflwyno'r papur.

3.2 Dywedodd Matthew Brown fod y papur yn gosod allan gyfres o bwyntiau, bob un yn bwysig i'r Trydydd Sector. Dywedodd fod y Gymraeg yn ased allweddol i ddatblygu'r economi. Felly hefyd teuluoedd, band eang a'r amgylchedd naturiol rydyn ni'n byw ynddo.

3.3 Dywedodd James Byrne fod bioamrywiaeth a chyllidebau carbon hefyd yn bynciau pwysig y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried.

3.4 Dywedodd Matthew Brown fod y papur yn nodi'r pynciau sy bwysicaf yng ngolwg y Trydydd Sector. Ei obaith yw trafod y pynciau hyn yn fanwl mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

3.5 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn falch o weld natur trawsbynciol y papur a dywedodd y byddai'n fodlon i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r Trydydd Sector ar y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi. Mae’r 'economi sylfaen' yn bwnc y mae Llywodraeth Cymru'n awyddus i ymchwilio iddo a chyfeiriodd at y gwaith sy'n cael ei wneud ar draws y Llywodraeth â'r sector gofal cymdeithasol.

3.6 Dywedodd Matthew Brown fod y Trydydd Sector yn ystyried Brexit fel risg, hynny oherwydd ei ddibyniaeth ar arian o'r UE.

3.7 Dywedodd Derek Walker y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd newydd o wireddu buddiannau cymunedol a bod hyn yn ystyriaeth bwysig o gofio'r ansicrwydd ynghylch dyfodol polisi rhanbarthol ar ôl Brexit. Dywedodd fod gan yr economi sylfaen a'r economi werdd botensial heb ei wireddu eto o ran dod â buddiannau i'r gymuned.

3.8 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod y Papur Gwyrdd ar Drafnidiaeth yn cynnig gweledigaeth o drafnidaeth fwy effeithlon a mwy fforddiadwy trwy ryddfraint newydd, diwygio'r gwasanaethau bysus a chyfle i sicrhau newid 'unwaith mewn oes' i drafnidiaeth, yn enwedig i wasanaethau bysus.

3.9 Tynnodd Sara MacKay ein sylw at y trafferthion sy'n wynebu pobl ag anableddau wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i fynd i'r gwaith. Cyfeiriodd at bobl yn y sector creadigol a oedd â'r sgiliau a'r parodrwydd i weithio, ond bod problemau trafnidiaeth yn ormod o faen tramgwydd iddynt.

3.10 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn gwybod am y broblem a'i fod yn gweithio gyda Diverse Cymru a'r Undebau Llafur i geisio ei threchu. Bydd cydraddoldeb yn rhan o bob un o strategaethau Llywodraeth Cymru.

3.11 Esboniodd Gareth Coles fod anghydraddoldeb yn y Sector Creadigol hefyd o ran dosbarth cymdeithasol a bod angen gwneud mwy i filwrio yn erbyn hyn a sicrhau bod pawb yn cael cyfleoedd, waeth beth yw eu cefndir.

3.12 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod gwaith yr Ysgrifennydd Cymunedau a Phlant ar Gelfyddydau Creadigol yn awgrymu bod lefelau cymryd rhan ymhlith y grwpiau economaidd-gymdeithasol is yn siomedig o isel a bod y lefelau gorau i'w gweld mewn gwyliau cerdd bach. Er mwyn annog mwy i gymryd rhan ac ymwneud â'r celfyddydau, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu rhoi mwy o help i'r mathau hynny o ddigwyddiadau.

3.13 Crynhodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith y drafodaeth gan ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau.

**4. Arloesedd mewn trafnidiaeth sy'n gynaliadwy, hygyrch a chynhwysol**

4.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i Tim Cairns gyflwyno'r papur.

4.2 Mynegodd Tim Cairns ei ddiolch i Ysgrifennydd y Cabinet am y cyfle i drafod trafnidiaeth. Dywedodd ei fod yn falch clywed Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud bod hwn yn cyfle unwaith mewn oes i newid trafnidiaeth i fod yn system gwbl integredig.

4.3 Ychwanegodd Tim Cairns fod y trafodaethau yn Uwchgynhadledd Bysiau Cymru yn ddiweddar wedi tueddu i ganolbwyntio ar fodelau traddodiadol o ddarparu gwasanaethau bysus. Dywedodd fod angen mwy o bwyslais ar drafnidiaeth gymunedol, gwasanaethau mwy hyblyg a chydnabyddiaeth o'r problemau gwahanol sy'n wynebu cefn gwlad a'r trefi. Gofynnodd i Ysgrifennydd y Cabinet am ei farn am y pynciau a godwyd.

4.4 Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet fod angen newid sylweddol i integreiddio rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus a disgrifiodd y gwaith sy'n cael ei wneud ar ryddfraint Cymru a'r Gororau a dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus ledled Cymru.

4.5 Mynegodd Tim Cairns ei ddiolch i Ysgrifennydd y Cabinet am ddisgrifio ei weledigaeth ar gyfer gwasanaethau bysus. Dywedodd fod yn rhaid herio'r model traddodiadol ar gyfer gwasanaethau bysus a gallai trafnidiaeth gymunedol fod yn ddewis effeithiol yn ei le.

4.7 Cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet y rôl bwysig y gallai trafnidiaeth gymunedol ei chwarae mewn rhwydwaith integredig yng Nghymru yn y dyfodol. Dywedodd fod cysylltedd a gwasanaethau digidol hefyd yn bwnc pwysig. Ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod band eang cyflym iawn ar gael bellach yn 95% o Gymru a bod gwaith yn mynd rhagddo i wella'r cysylltiadau mewn ardaloedd gwledig ac i ddenu mwy o gwsmeriaid i'w ddefnyddio.

4.9 Esboniodd Rhodri Griffiths y caiff trafnidiaeth ei ystyried mewn cyd-destun ehangach ac nid ar ei ben ei hun gan ei fod yn cael effaith ar wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus fel iechyd ac addysg.

4.10 Cytunodd Tim Cairns â hynny a dywedodd fod trafnidiaeth gymunedol yn llenwi bwlch pwysig o ran y sector trafnidaieth iechyd ac addysg a'i fod felly yn gyfrannwr pwysig iawn eisoes.

**5. Pwysig: Ymateb i adroddiad Llywodraeth Cymru: 'Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru'**

5.1 Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi nodi cynnwys y papur a gofynnodd i Gareth Coles a oedd ganddo sylw i'w gynnig.

5.2 Dywedodd Gareth Coles ei fod yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru a'i fod yn disgwyl ymlaen at weld cynigion manylach yn y dyfodol.

**<u>6.0 Unrhyw Fater Arall</u>**

6.1 Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet a oedd yna unrhyw fater arall.

6.2 Diolchodd Matthew Brown Ysgrifennydd y Cabinet a dywedodd eu bod yn disgwyl ymlaen at weithio gydag ef a'i swyddogion.

6.3 Daeth Ysgrifennydd y Cabinet â'r cyfarfod i ben gan ddiolch i bawb am eu hamser a'u cyfraniad. Dywedodd y byddai ei swyddogion yn holi ynghylch dyddiadau'r cyfarfod nesaf.

**Diwedd**